

FSAW 20/01/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Agored Diwethaf y Bwrdd

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn rhoi crynodeb byr o faterion a gyflwynwyd gan y Cadeirydd yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019 a'r prif faterion a drafodwyd mewn perthynas â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru.
2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
 - **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cysylltwch â: Lucy Edwards

Lucy.Edwards@food.gov.uk

FSAW 20/01/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru – Ionawr 2020

1. Cyfarfodydd y Bwrdd

1.1 Oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad, cafodd dyddiad cyfarfod agored y Bwrdd, a gynlluniwyd yn wreiddiol ar gyfer mis Rhagfyr 2019, ei newid i 21 Ionawr 2020. Cynhaliwyd cyfarfod agored olaf y Bwrdd ar 18 Medi 2019. Yn y cyfarfod hwn, aeth y Bwrdd ati i ystyried y materion canlynol:

- **Diweddariad ar ein gwaith ar Orsensitifrwydd i Fwyd a Gweithredu Canlyniadau'r Adolygiad Labelu Alergenau:** Roedd y papur yn rhoi diweddariad ar weithgarwch cyfredol a gweithgarwch ar y gweill ar orsensitifrwydd i fwyd a gweithredu rheolau newydd ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn dilyn Adolygiad Labelu Alergenau'r Llywodraeth a thrafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 19 Mehefin 2019.
- **Model Cost Salwch, Parodrwydd i Dalu a Blynyddoedd o Fwyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd fel Mesurau Effaith ar gyfer Gorsensitifrwydd i Fwyd a Salwch a Gludir gan Fwyd:** Roedd y papur yn darparu ystod o wybodaeth gyda'r nod o wella dealltwriaeth o effeithiau cymharol gwahanol gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig â bwyd, fel mewnbwn i flaenoriaethu ymyriadau iechyd cyhoeddus ochr yn ochr â materion fel y gallu i olrhain a chost.
- **Labordai Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol y Deyrnas Unedig (DU) – Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol:** Roedd y papur yn adrodd ar ganlyniad adolygiad diweddar yr ASB o gapasiti, gallu a llywodraethu system labordy bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU. Roedd y papur hefyd yn rhoi sylwadau ar feysydd posibl i'w gwella o ran system labordy bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU yn y dyfodol.
- **Dull yr ASB o ystyried Ansicrwydd a Risg:** Roedd y papur yn rhan o drafodaeth barhaus y Bwrdd o egwyddorion ac ymarfer dadansoddi risg sy'n sail i rôl yr ASB o ran darparu cyngor rheoli risg seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion sy'n gwneud penderfyniadau rheoli risg.
- **Cynnydd ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR):** Rhoddodd y papur ddiweddariad ar weithgareddau gwyddoniaeth yr ASB yn ymwneud ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) a'r gadwyn fwyd ers i'r papur blaenorol gael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2018. Roedd yn cynnwys diweddariadau ar:
 - rôl a chyfraniad yr ASB i gynllun gweithredu cenedlaethol AMR 5 mlynedd y DU o 2019 i 2024 a gweledigaeth 20 mlynedd y DU ar reoli AMR;
 - ymdrechion yr ASB mewn perthynas ag ymchwil a gwyliadwriaeth AMR heddiw ac yn y dyfodol;

- ymdrechion parhaus diwydiant y DU i leihau gwerthiant gwrthfotigau ar gyfer anifeiliaid cynhyrchu bwyd;
 - diweddariad ar Dasglu Rhynglywodraethol *ad hoc* Codex ar AMR.
- **Adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon (NIFAC):** Roedd y papur yn cynnwys adroddiad gan Colm McKenna fel Cadeirydd NIFAC. Rhoddodd drosolwg o'r adroddiad a oedd yn cwmpasu'r newidiadau yn y gweithdrefnau gweithredu ar gyfer y pwyllgor a gweithgareddau dros y ddwy flynedd flaenorol.
 - **ASB yng Ngogledd Iwerddon: Diweddariad gan y Cyfarwyddwr:** Roedd y papur yn cynnwys diweddariad gan Maria Jennings fel Cyfarwyddwr Gogledd Iwerddon. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r amrywiol feysydd gwaith a gyflawnwyd dros y ddwy flynedd flaenorol, gan dynnu sylw at y gwaith a arweiniwyd gan staff yr ASB yng Ngogledd Iwerddon ynghylch safonau deietegol a safonau a labelu bwyd.

1.2 Bydd cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd mis Medi 2019, a fydd yn darparu rhagor o gyd-destun a chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod, yn cael eu rhoi ar wefan yr ASB yn fuan drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/ein-bwrdd#cyfarfodydd-bwrdd>

1.3 Cynhaliodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gyfarfod busnes ar 12 Medi 2019 i gytuno ar ei gyfraniad i drafodaethau'r Bwrdd a amlinellwyd uchod.

2. Materion eraill

2.1 Ar 14 Hydref 2019, ymunais â sesiwn cwrdd i ffwrdd y Bwrdd. Dyma oedd fy nghyfle cyntaf i drafod gydag Emily Miles, Prif Weithredwr newydd yr ASB. Roedd y sesiwn hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer sesiynau briffio ar Labelu Alergenau ar gyfer Bwyd wedi'i Becynnu Ymlaen Llaw i'w Werthu'n Uniongyrchol, Ansicrwydd a Risg, Model Cost Salwch, Blaenoriaethau Strategol yr ASB yn y Dyfodol, Parodrwydd ar gyfer Ymadael â'r UE, Rhaglen Cyflenwi Trawsnewid Gweithredol a materion Masnach.

2.2 Yn lle'r cyfarfod agored ym mis Rhagfyr 2019, cafwyd cyfle arall i'r bwrdd gael diweddariad ar amrywiaeth o faterion. Roeddwn i'n bresennol mewn sesiwn friffio undydd i'r Bwrdd lle cafwyd trafodaethau a diweddariadau ar ystod o faterion strategol gan gynnwys y Strategaeth Fwyd Genedlaethol, Diwygio Rheoleiddio, Perthynas y DU a'r ASB gyda materion CODEX a materion Masnach. Bu'r Bwrdd hefyd yn ymweld ag Allergy UK yn ei Bencadlys yn Sidcup.

2.3 Byddaf yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr 2020. Bydd hyn yn rhoi cyfle i drafod ymhellach gyda Chadeirydd Bwrdd yr ASB ar gynllun gwaith arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i drafod ymarfer recriwtio a fydd, ar yr amod bod y Gweinidog yn cytuno, yn dechrau dros yr

ychedig fisoedd nesaf i recriwtio aelodau newydd i wasanaethu ar y Pwyllgor. Bydd hyn yn cynnwys penodi aelod newydd i'r Pwyllgor yn lle James Wilson sydd wedi camu o'r neilltu am resymau personol. Ar ran y Pwyllgor, mae'n ddrwg gennym bod James yn gadael, ond hefyd rydym ni'n gwerthfawrogi ei gyfraniad gwerthfawr iawn. Rwy'n dymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Dr Ruth Hussey CB, OBE

Aelod o Fwrdd Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru